

Effeithiolrwydd arweiniad gyrfaoedd wrth gefnogi cyfranogiad mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET)

Awduron: Katy Huxley and Rhys Davies

Dyddiad: March 2023

Mae'r Cipolwg Data hwn yn archwilio'r dylanwad y gall arweiniad gyrfaoedd ei gael ar bontio i Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET) yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad yn archwilio cyfraddau pontio i AHO yng Nghymru, a yw derbyn arweiniad gyrfaoedd yn ystod cyfnod allweddol 4 yn cefnogi pontio i AHO ac, os felly, a yw o fudd i rai grwpiau o ddisgyblion fwy nag eraill.

Cefndir

Mae'r pontio o ddysgu i waith yn dod yn fwyfwy cymhleth a theimlir bod darparu arweiniad gyrfaoedd i'r rhai yn yr ysgol yn chwarae rhan hollbwysig, yn enwedig ymhlith y disgyblion hynny o gefndiroedd tlotach. Mae ymchwil wedi arddangos bod dyheadau a dewisiadau gyrfaoel plant yn cael eu dylanwadu gan eu profiadau gartref ac yn yr ysgol, eu hamlygiad i gyflogaeth, ac anogaeth gan oedolion arwyddocaol (Moote ac Archer 2018)¹. Mae peth ymchwil wedi awgrymu bod gan rieni o statws economaidd-gymdeithasol is ddyheadau is ar gyfer eu plant (Bandura et al. 2001)² a'u bod yn gyffredinol yn llai gwybodus am lwybrau gyrfaoel penodol (Wikeley a Stables 1999)³. Teimlir felly bod arweiniad gyrfaoedd yn arbennig o bwysig ymhlith y rheini o deuluoedd sydd â hanes o ddiweithdra neu gyflogaeth sgiliau isel (Haynes et al. 2013)⁴. Gall arweiniad gyrfaoedd helpu i lenwi'r bylchau hyn mewn cyfalaf cymdeithasol trwy gynyddu gwybodaeth alwedigaethol, hunan-barch a chodi dyheadau (Watts a Kidd 2000)⁵.

Felly, a ellir dangos bod darparu arweiniad gyrfaoedd mewn ysgolion yn dylanwadu ar y pontio a wneir wedyn gan ddisgyblion ar ôl iddynt gwblhau addysg orfodol? Yng Nghymru, mae Gyrfa Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd annibynnol a diduedd. O dan ei strategaeth gyflawni pum mlynedd newydd [Dyfodol Disglair](#), nod Gyrfa Cymru yw cynnig gwasanaeth wedi'i bersonoli, gan dargedu cymorth ar y rheini sydd fwyaf tebygol o wynebu rhwystrau rhag symud i bontio cadarnhaol parhaus o addysg statudol. Agwedd bwysig ar waith Gyrfa Cymru yw cefnogi disgyblion fel nad ydynt yn dod yn NEET (Ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

Yr hyn a Wnaethom


At ddiben ein dadansoddiad, fe wnaethom gysylltu Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Data Cenedlaethol Cymru (NDC PLASC), y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ôl-16 (PLASC Ôl-16), a Chofnod Dysgwr Gydol Oes Cymru (LLWR). Roedd cysylltu'r cofnodion gweinyddol hyn yn ein galluogi i nodi'r disgyblion hynny a symudodd i AHO yn dilyn diwedd cyfnod allweddol 4. Mae'r enghreifftiau pontio hyn yn cynnwys y rhai sydd naill ai'n aros yn y Chweched Dosbarth (a ddaliwyd gan PLASC Ôl-16) neu'r rhai a symudodd i'r sector addysg bellach (AB) – gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cofrestru ar gyfer dysgu seiliedig ar waith (wedi'u dal gan LLWR). Mae data sy'n ymwneud â'r rhyngweithiadau y mae Gyrfa Cymru yn eu cael gyda disgyblion ar gael o 2015/16 ymlaen. I archwilio effaith yr arweiniad gyrfaoedd a dderbyniwyd yn ystod cyfnod allweddol 4 (Blynyddoedd 10 ac 11), mae ein dadansoddiad felly yn archwilio'r enghreifftiau pontio i AHO a wnaed gan ddwy garfan o ddisgyblion, y rhai a oedd ym Mlwyddyn 11 yn ystod 2016/17 a 2017/18. Mae ein hamcangyfrifon yn datgelu bod oddeutu 92% o ddisgyblion yn symud ymlaen i AHO. Mae'r ffigur hwn yn debyg iawn i ganlyniadau'r arolwg blynyddol o ymadawyr a gynhaliwyd gan [Gyrfa Cymru](#) ar gyfer yr un ddwy garfan (93%).

Mae data rhyngweithio Gyrfa Cymru yn fanwl iawn. Gellir cofnodi bod disgyblion wedi cael rhyngweithiadau lluosog o wahanol fathau. Mae hyd yn oed manylion negeseuon testun neu ohebiaeth e-bost gyda chleientiaid yn cael eu cofnodi. Y prif wahaniaeth a wneir yn y data yw'r rhyngweithiadau hynny sy'n cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd. Gellir ystyried yn fras bod y tri chategori hyn yn cynrychioli lefelau cynyddol o gymorth. Er y gall gwybodaeth a chyngor gyrfaoedd gynnwys pethau fel cyfeirio at wybodaeth am gyfleoedd dysgu a gwaith, mae Cyfweliad arweiniad gyrfaoedd yn fwy manwl a dim ond cynghorydd arweiniad gyrfaoedd â chymwysterau proffesiynol all ymgymryd ag ef. Yn hytrach nag ymyriadau mwy cyffredinol megis sesiynau grŵp, y cyfweliad arweiniad un wrth un yw'r prif ymyriad wedi'i dargedu; gan alluogi cynghorwyr i nodi diddordebau, sgiliau a doniau'r cleient ac archwilio sut y gallai unigolion oresgyn unrhyw rwystrau y maent yn eu hwynebu. Rydym yn archwilio sut mae cyfraddau pontio i AHO yn amrywio yn ôl a gafodd disgyblion gyfweliad arweiniad gyrfaoedd yn ystod Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11.

Yr hyn a Ganfuom

Ar draws ein dwy garfan o ddisgyblion, nid yw oddeutu 9% yn mynd ymlaen i gymryd rhan mewn AHO (gweler Ffigur 1). Mae'r ffigur hwn ychydig yn uwch ymhlith y rhai sy'n cael Cyfweliad gyrfaoedd (9% o gymharu ag 8%). Y broblem gyda chymariaethau o'r fath yw eu bod yn methu ag ystyried gwahaniaethau yn amgylchiadau disgyblion sy'n cael eu blaenoriaethu gan Gyrfa Cymru fel rhai sydd angen cymorth. Er enghraifft, os yw Gyrfa Cymru yn canolbwyntio adnoddau ymhlith y disgyblion hynny o gefndiroedd difreintiedig neu'r rhai sydd â lefelau cyrhaeddiad addysgol isel, byddai disgwyl i'r disgyblion hynny sy'n cael cyfweliad arweiniad gyrfaoedd fod â chyfraddau pontio is i AHO na'r rhai nad ydynt. Mae'n bosibl cymryd ffactorau o'r fath i ystyriaeth trwy wneud cymariaethau rhwng grwpiau manylach o ddisgyblion. Ymhlith y chwarterel isaf o gyflawnwyr TGAU, nid yw 17% o ddisgyblion yn mynd ymlaen i gymryd rhan mewn AHO. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 22% ymhlith y rhai nad ydynt yn cael Cyfweliad Arweiniad Gyrfaoedd. Yn yr un modd, ymhlith y rhai sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (FSM), nid yw 12% yn mynd ymlaen i gymryd rhan mewn AHO. Unwaith eto, mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 15% ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim nad ydynt wedi cael cyfweliad arweiniad gyrfaoedd. Ymddengys felly fod y dadansoddiad yn awgrymu bod yr arweiniad gyrfaoedd yn effeithio ar bontio disgyblion â lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol a'r rhai sy'n gymwys i gael FSM.


Ffigur 1: Disgyblion nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant ar ôl Blwyddyn 11



Y broblem gyda chymariaethau o'r fath yw y bydd gan ddisgyblion amrywiaeth o nodweddion (fel rhywedd, ethnigrwydd, anghenion dysgu ychwanegol (ADY)) a fydd yn dylanwadu ar eu pontio i AHO. Mae technegau Dadansoddi Effaith Gwrthffeithiol yn darparu ffordd fwy coeth o wneud cymariaethau 'tebyg am debyg' sydd ar yr un pryd yn ystyried gwahanol nodweddion disgyblion. Gellir ystyried cyfweiliad arweiniad gyrfaoedd fel 'triniaeth', lle gallai derbyn cyfweiliad (triniaeth) effeithio'n ffafriol ar ganlyniadau dilynol. Mae unrhyw arfarniad o'u heffaith yn gofyn am adroddiad o'r hyn a fyddai wedi digwydd i'r disgyblion hyn pe na byddent wedi cael cyfweiliad. Felly, defnyddiwyd technegau paru ystadegol i ddeillio 'grwpiau rheoli' sy'n ein galluogi i gymharu deilliannau'r disgyblion hyn â grŵp o ddisgyblion na chawsant gyfweiliad a oedd fel arall yn debyg i'w gilydd. Mae'r gwahaniaethau mewn canlyniadau rhwng y ddau grŵp hyn yn rhoi asesiad o effaith cyfweiliadau arweiniad gyrfaoedd (gweler Ffigur 2).

Crynoir y canlyniadau sy'n deillio o baru ystadegol yn Nhabl 2. Defnyddiwyd gwahanol dechnegau paru i archwilio cadernid ein canlyniadau. Er hwylustod, y ffigurau yn Nhabl 2 yw cyfartaledd yr effeithiau a gynhyrchir gan y manylebau gwahanol hyn. Mae'r ffigurau a amlygir mewn print trwm yn dangos yr achosion hynny lle cafwyd canlyniadau a oedd yn arwyddocaol yn ystadegol ar y lefel 5% (trwm) neu ar y lefel 10% (italig trwm) gan y rhan fwyaf o'r manylebau. Gallwn weld bod canrannau grwpiau rheoli (ail golofn) yn dangos cyfraddau uwch o beidio â bod mewn addysg na hyfforddiant (NET) o gymharu â'r rhai sy'n cael arweiniad (y grŵp triniaeth, colofn gyntaf). Yn y ddwy golofn olaf, mae'r gwahaniaeth pwyntiau canran yn dangos y gwahaniaeth crai, tra bod y gyfradd ganrannol yn dangos y newid cymesur yn y tebygolrwydd o fod yn NET ar gyfer y rhai sy'n cael cyfweiliadau arweiniad.

Ffigur 2: Aseiad Effaith Gwrthffeithiol



Tabl 2: Canlyniadau cyfatebol sgôr tueddiad, canran y disgyblion sy'n NET ar ôl Blwyddyn 11

	Triniaeth	Rheoli	Gwahaniaeth	
			Pwyntiau %	Cyfradd %
I gyd	8.0%	9.9%	-2.0%	-19.8%
Yn ôl Cyrhaeddiad TGAU				
Chwartel 1	13.3%	20.1%	-6.9%	-34.0%
Chwartel 2	7.4%	8.2%	-0.8%	-10.3%
Chwartel 3	4.2%	4.1%	0.1%	3.3%
Chwartel 4	4.7%	4.5%	0.2%	5.3%
Yn ôl Cymhwysedd FSM				
Cymwys	9.2%	15.1%	-5.8%	-38.7%
Anghymwys	7.7%	9.0%	-1.3%	-14.5%
Yn ôl Cymhwysedd FSM a Chyrhaeddiad TGAU				
Chwartel TGAU 1				
Cymwys	13.1%	22.7%	-9.5%	-42.0%
Anghymwys	13.5%	19.0%	-5.5%	-28.8%
Chwarteli TGAU 2-4				
Cymwys	5.2%	6.7%	-1.2%	-18.5%
Anghymwys	5.7%	5.7%	0.1%	0.9%

Yn gyffredinol, mae derbyn cyfweiliad arweiniad gyrfaoedd yn lleihau cyfradd y disgyblion sy'n dod yn NET o 10% (y grŵp rheoli) i 8% (y grŵp triniaeth). Mae'r gostyngiad hwn o 2 bwynt y cant yng nghyfradd NET yn cyfateb i ostyngiad o 20% yn y tebygolrwydd o gael eich gweld fel NET yn dilyn addysg orfodol. Mae dadansoddiad pellach yn datgelu bod yr effaith gyffredinol hon yn cael ei llywio gan effaith arweiniad gyrfaoedd ymhlith is-grwpiau penodol o ddisgyblion. Gwelwn fod disgyblion sydd â chyrhaeddiad isel mewn TGAU (chwartel 1) 34% yn llai tebygol o fod yn NET os ydynt yn cael cyfweiliad arweiniad. Os yw disgyblion yn gymwys i gael FSM, maent 39% yn llai tebygol. Lle cyfunir y nodweddion hyn, gwelwn fod disgyblion FSM â chyrhaeddiad isel 42% yn llai tebygol o fod yn NET os ydynt yn cael cyfweiliad arweiniad gyrfaoedd o gymharu â grŵp o ddisgyblion nad ydynt fel arall yn debyg.

Pam Mae'n Bwysig

Mae cymhwyso Technegau Gwerthuso Effaith Gwrthffeithiol yn ein galluogi i wneud asesiad o effaith arweiniad gyrfaoedd gan gynyddu ymgysylltiad ag AHO a lleihau'r tebygolrwydd o fod yn NET. Oherwydd diffyg data ar ddeilliannau cyflogaeth, ni allwn daflu goleuni ar effaith cyfweiliadau arweiniad gyrfaoedd ar y risg y bydd disgyblion yn dod yn NEET. Serch hynny, mae cynyddu ymgysylltiad ag AHO yn un o nodau allweddol Llywodraeth Cymru,⁶ ac felly mae ein tystiolaeth sy'n awgrymu y gellir gwella'r canlyniadau i bobl ifanc drwy ymyriadau arweiniad gyrfaoedd yn parhau i fod yn bwysig. Mae'r effaith fwy y mae'n ymddangos bod yr ymyriadau hyn yn ei chael ymhlith y grwpiau mwyaf difreintiedig o ddisgyblion hefyd yn cadarnhau canfyddiadau ymchwil flaenorol sy'n pwysleisio pwysigrwydd arbennig arweiniad gyrfaoedd ymhlith y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

Beth Nesaf?

Mae ein dadansoddiad wedi ystyried effaith a yw disgybl wedi cael cyfweiliadau arweiniad gyrfaoedd mewn perthynas â dod yn NET. Mae lefelau uwch o gymorth i ddisgyblion difreintiedig yn golygu y bydd y disgyblion hyn yn elwa ar fwy o gymorth gan Gynghorwyr Gyrfaoedd. Felly nid yw'r 'driniaeth' a gaiff pob disgybl yr un peth. Er mwyn deall ymhellach y cymorth a ddarperir i ddisgyblion ysgol gan Gyrfa Cymru, gallwn archwilio ein cronfa ddata gysylltiedig i edrych ar nifer a chyfuniadau'r ymyriadau a dderbynnir gan grwpiau gwahanol o ddisgyblion. Bydd hyn yn ein galluogi i archwilio pa gyfuniadau o ymyriadau ymhlith pa grwpiau o ddisgyblion a allai gael effaith arbennig ar gyfranogiad mewn AHO. Rydym hefyd yn gobeithio edrych ar ganlyniadau tymor hwy sy'n gysylltiedig ag Arweiniad Gyrfaoedd. Er enghraifft, a yw arweiniad gyrfaoedd yn cynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch neu a yw'n lleihau'r gyfradd y mae dysgwyr yn rhoi'r gorau iddi o AHO â hi?

Cydnabyddiaethau

Cynhyrchwyd y Cypolwg Data hwn gan dîm ymchwil Sgiliau a Chyflogadwyedd YDG Cymru. Mae'n rhoi cipolwg o'r ymchwil addysgiadol sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn YDG Cymru ond ni fwriedir iddo roi darlun cyflawn o'r gwaith a wneir yn y maes hwn na rhaglen waith YDG Cymru. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y Cypolwg Data hwn wedi'i hadolygu gan gydweithwyr YDG Cymru sydd ag arbenigedd yn y maes thematig hwn a derbynnir eu bod yn gywir ar y pwynt cyhoeddi. Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn y Mewnwelediad Data hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau sefydliadau partner YDG Cymru.

Cyfeiriadau

¹ Moote, J., ac Archer, L. (2018). Methu â chyflawni? Archwilio statws presennol darpariaeth addysg gyrfaoedd yn Lloegr, Papurau Ymchwil mewn Addysg, 33(2), tt. 187-215.


² Bandura, A., Barbaranelli, C., Caprara, G.V. a Pastorelli, C. (2001), Credoau Hunan-ffeithiolrwydd fel Llunwyr Dyheadau Plant a Thafllwybrau Gyrfa. Datblygiad Plant, 72: 187-206. <https://doi.org/10.1111/1467-8624.00273>

³ Wikeley, F., ac A. Stables. (1999) Newidiadau yn ymagweddau myfyrwyr ysgol at ddewisiadau pwnc: Astudiaeth o ddisgyblion yng Ngorllewin Lloegr ym 1984 a 1996. Ymchwil Addysgol 41 (3), tt. 287-99.

⁴ Haynes, G., McCrone, T. a Wade, P. (2013) Proses pobl ifanc ar gyfer gwneud penderfyniadau: pwysigrwydd addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd o ansawdd uchel yn yr ysgol, Papurau Ymchwil mewn Addysg, 28:4, 459-482, DOI: [10.1080/02671522.2012.727099](https://doi.org/10.1080/02671522.2012.727099)

⁵ Watts, A.G. a Kidd, J. (2000) Arweiniad yn y Deyrnas Unedig: Ddoe, presennol a'r dyfodol, , British Journal of Guidance & Counselling , 28, 486-502, DOI: 10.1080/713652315

⁶ Mae hyn yn amlwg yn y cwricwlwm newydd a gynigir gan [Gyrfaoedd a Phrofiad Cysylltiedig â Gwaith](#); y [Warrant Pobl Ifanc](#), y [Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid](#), a'r [Cynllun Cyflogadwyedd](#).



Cynhyrchwyd gan YDG Cymru

Gwefan: ADRWales.org

Twitter: [@ADR_Wales](https://twitter.com/ADR_Wales)

Mae'r ymchwil hwn wedi'i wneud fel rhan o raglen waith YDG Cymru, fel rhan o faes ymchwil thematig Sgiliau a Chyflogadwyedd. Mae'r meysydd ymchwil thematig yn cyd-fynd â'r themâu blaenoriaeth a nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae YDG Cymru yn dod ag arbenigwyr gwyddor data yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe, staff o Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd a thimau arbenigol o fewn Llywodraeth Cymru at ei gilydd i ddatblygu tystiolaeth newydd sy'n cefnogi'r Rhaglen Lywodraethu. drwy ddefnyddio Banc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe, i gysylltu â dadansoddi data dienw. Mae YDG Cymru yn rhan o'r Cyngor Economaidd ac Ymchwil Cymdeithasol (rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU) wedi'i gyllido gan YDG y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Cathrine.E.Richards@Swansea.ac.uk

Partneriaid YDG Cymru

